# Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 10ed Ionawr, 2022 drwy gyfrwng Zoom

**Presennol**: Dwynwen (DP) **(Cadeirydd)** Iolo Roberts (IPR),Eryl (EO), Elen(EH),Steve (SW), Iona (IE), Iolo ap Gwynn (IAG), Raymond (RG), Sioned (SJ), Dewi (DH), Richard (RR), Keith (KR) Dilys (DAP)

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| **1.** | **CROESO**<br><br>Estynnodd Dwynwen groeso i Elen, Keith a Sioned yn eu cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor fel aelodau newydd a dymunodd wellhad buan a llwyr i Keith oedd wedi cael codwm dros y Dolig ac anafu ei ffêr.<br><br>Cymerodd y cyfle hefyd i ddiolch yn swyddogol i Gareth Everett, Gwyn Llanrwst ac Eirwen, y tri wedi sefyll i lawr fel aelodau o'r Pwyllgor yn y Cyfarfod Blynyddol a diolchodd iddynt am eu gwasanaeth a'u cyfraniadau gwerthfawr i waith y Pwyllgor. | |
| **2.** | **COFNODION**<br><br>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir fel rhai cywir:<br><br>a. 13eg o Fedi, 2021<br><br>Yn codi<br><br>**Eitem 3a – Digwyddiadau a damweiniau ar deithiau diweddar**<br><br>Adroddwyd na wnaed ymholiadau gydag Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Nododd DAP fod ffurflen cofnodi digwyddiadau ar wefan y Clwb ac y dylid annog arweinwyr i gwblhau ffurflen i gofnodi unrhyw ddigwyddiad ar eu teithiau er mwyn gweld unrhyw batrwm neu wersi i'w dysgu.<br><br>b. 4 Hydref, 2021 | |
| **3.** | **MATERION ARIANNOL**<br><br>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol<br><br>a. Materion Cyffredinol<br><br>Adroddodd<br>• bod 259 o aelodau wedi ailymuno hyd yma<br>• bod gan y Clwb oddeutu £10,500 yn y banc yn cynnwys £6,000 y byddai angen ei dalu i'r CMP,a tua £850 i Gronfa Gareth yn gadael £4,500 yn weddill i'r Clwb. Roedd y swm wrth gefn yn gostwng yn raddol ac roedd yn beth da bod y Clwb wedi penderfynu cynyddu'r tâl aelodaeth o 2023 ymlaen i ddelio â'r gostyngiad yma | |

| | | |
|---|---|---|
| | • ar hyn o bryd bod yna gyfyngiad o £2000 ar drosglwyddiadau y gellid eu gwneud o gyfrif banc y Clwb. Felly roedd yn rhaid gwneud y taliad blynyddol i'r CMP o £6000 mewn 3 trosglwyddiad ar wahân. Credai y byddai'n well codi uchafswm unrhyw drosglwyddiad unigol i £10000 er mwyn hwyluso'r trefniadau<br>• bod cofrestriad y Clwb gyda Chyllid y Wlad wedi ei gwblhau ac o ganlyniad ei bod yn bosib adennill rhywfaint o arian ar y rhoddion er cof am Gareth<br>• bod cyfrifon ac adroddiad blynyddol y Clwb wedi eu gyrru i'r Comisiynwyr Elusennau yn ôl yr angen ac fe'u hysbyswyd am ymddiriedolwyr newydd y Clwb<br><br>Cytunwyd<br><br>i. nodi'r wybodaeth a diolch i DAP am ei holl waith<br>ii. cytuno, os y byddai'r banc yn fodlon, i gynyddu uchafswm trosglwyddiadau unigol o gyfrif banc y Clwb i £10,000<br><br>b. Trefniadau bancio .<br><br>Adroddodd<br>• yn sgil y penderfyniad i adolygu trefniadau bancio'r Clwb wedi i HSBC ddechrau codi tâl am ddefnyddio'r cyfrif, codwyd hefyd y posibilrwydd o allu defnyddio y drefn taliadau debyd uniongyrchol a fyddai'n hwyluso'r drefn o dderbyn taliadau gan aelodau<br>• ei bod wedi mynychu cyfarfod rhithiol a drefnwyd gan y CMP ar daliadau debyd uniongyrchol i glybiau. Daeth i'r amlwg ynddo y byddai'n rhaid cyflogi asiant i weithredu'r drefn ar ein rhan. Roedd nifer o gwmnïau yn cynnig y gwasanaeth yma am bris , rhai yn codi mwy nag eraill. Roedd cwestiwn hefyd os y gellid canfod unrhyw gwmni o'r fath allai gynnig gwasanaeth drwy'r Gymraeg<br>• ei bod yn dal i edrych i fewn i symud cyfrif banc y Clwb, ond roedd yn fater llawer mwy cymhleth na'r disgwyl gyda rhai banciau ddim yn fodlon derbyn cyfrifon oedd yn cael eu trosglwyddo o fanciau eraill. Gobeithiai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Mai<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth ac ategu penderfyniad blaenorol y pwyllgor yn ei gyfarfod ym Medi 2021 yn ymddiried hawl i'r Trysorydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Trysorydd Cynorthwyol a'r Ysgrifennydd Cyffredinol os angen gwneud penderfyniad brys. | |
| **4.** | **TÂL AELODAETH 2022**<br><br>Nodwyd bod y Cyfarfod Blynyddol ym mis Tachwedd wedi cadarnhau argymhelliad y Pwyllgor i gynyddu tâl aelodaeth y Clwb i £25 o Ionawr 2023. Bydd trefniadau yn digwydd yn ystod y flwyddyn i weithredu ar hynny.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth | |
| **5.** | **CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB**<br><br>Adroddodd EO ar y materion canlynol | |

| | | |
|---|---|---|
| | a. Rhaglen Weithgareddau<br><br>• Roedd rhaglen bresennol y Clwb yn rhedeg tan mis Ebrill ac roedd yn falch o weld bod amrywiaeth da o deithiau yn cael eu cynnig. Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i SW am lenwi bwlch ac arwain taith Calan y Clwb i gopa'r Wyddfa ar fyr rhybudd oherwydd salwch.<br><br>• Oherwydd y sefyllfa bresennol hefo Cofid 19 roedd amheuaeth a fyddai rheoliadau cyfredol yr Alban yn caniatáu i'r wythnos yn Crianlarich ddigwydd. Mae'r gwesty wedi cau ar hyn o bryd ond disgwyl iddynt ailagor yn y dyfodol agos. Byddai Gareth Everett yn cael gair hefo nhw bryd hynny i weld beth yn union fyddai'r sefyllfa.<br><br>Cytunwyd<br><br>i. nodi'r wybodaeth a diolch i EO am ei holl waith<br><br>ii. bod angen cadw golwg ar sefyllfa'r daith i'r Alban gan fod y rheolau Cofid i weld yn newid yn sydyn yn y cyfnod presennol.<br><br>b. Penwythnos breswyl yng Nglan-llyn<br><br>• Adroddodd EO fod syniad wedi codi y gellid cynnlg penwythnos breswyl yng Ngwersyll Glan-llyn a fyddai'n caniatáu i aelodau'r de a'r gogledd ddod at ei gilydd i fynychu amryw o deithiau a chymdeithasu.<br><br>• Byddai'n trafod y syniad hefo DH a rheolwyr y gwersyll i weld beth fyddai'n bosib<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth a chefnogi'r syniad os y gellid dod i gytundeb hefo Glan-llyn. | |
| **6.** | **<u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2021</u>**<br><br>Adroddodd IPR bod y trefniadau i gynnal y Cyfarfod Blynyddol yng Ngwesty'r Oakley Arms ym Maentwrog ar nos Sadwrn 13eg Tachwedd, 2021 wedi bod yn llwyddiannus a bod yr aelodau wedi mwynhau'r cyfle i gymdeithasu ar ôl y toriad o ganlyniad i waharddiadau'r cofid.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth. | |
| **7.** | **<u>DIFFIBRILWYR</u>**<br><br>Adroddwyd<br><br>• bod y diffibriliwr a dderbyniwyd ar gyfer teithiau'r Clwb yn y gogledd bellach yn cael ei ddefnyddio a bod y drefn o'i drosglwyddo rhwng arweinyddion teithiau i'w gweld yn gweithio'n llwyddiannus.<br><br>• nad oedd yr ail ddiffibriliwr a archebwyd gan y Clwb ar gyfer teithiau'r de wedi ei dderbyn eto. Roedd DAP wedi talu amdano.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth a gofyn i DAP wneud ymholiadau hefo'r cwmni oedd yn eu darparu. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **8.** | **<u>RHODDION ER COF AM GARETH PIERCE</u>**<br><br>Adroddwyd<br><br>• fod swm o oddeutu £850 wedi ei dderbyn i'r gronfa<br><br>• bod EO wedi cael trafodaethau hefo'r Urdd ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio'r arian i gynnig cyfleon i ieuenctid difreintiedig allu mwynhau gweithgareddau awyr agored yn eu gwersylloedd.<br><br>• roedd yr Urdd yn gefnogol i'r syniad yma. Gellid hefyd ddefnyddio'r rhoddion yr oeddent hwy wedi eu derbyn er cof am Gareth i'r un pwrpas. Roedd teulu Gareth hefyd yn gefnogol i'r syniad<br><br>• daeth yn amlwg nad oedd y syniad arall a ystyriwyd i goffau Gareth, sef cyhoeddi cyfrol o ddetholiad o'r cerddi am fynyddoedd roedd Gareth wedi eu casglu dros y blynyddoedd, yn ymarferol. Byddai yn brosiect llawer mwy hirdymor.<br><br>Cytunwyd cefnogi'r syniad o ddefnyddio'r arian a dderbyniwyd er cof am Gareth ar y llinellau a nodir uchod. | |
| **9.** | **<u>Eisteddfod Genedlaethol 2022 – Darlith Flynyddol</u>**<br><br>Adroddodd DP y byddai'n cadarnhau gyda threfnwyr yr Eisteddfod bod y trefniadau a wnaed i gynnal y ddarlith ym Mhabell y Cymdeithasau yn yr eisteddfodau a ohiriwyd yn 2020 a 2021 wedi eu trosglwyddo i Eisteddfod 2022. Byddai hefyd yn cysylltu gyda Caradog Jones i gael cadarnhad ei fod yn dal ar gael i roi'r ddarlith.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth. | |
| **10.** | **<u>MATERION CMP</u>**<br><br>Adroddodd SW ar drafodaethau rhai o gyfarfodydd diweddar cangen leol y CMP. Adroddodd y bydd Elfyn Jones, Swyddog Mynediad y CMP yng Nghymru yn ymddeol. Bu Elfyn yn weithgar iawn dros y blynyddoedd a brwydrodd yn gyson dros y Gymraeg yn y sefydliad. Bydd colled fawr ar ei ôl. Doedd hi ddim yn glir ar y pryd beth oedd cynlluniau'r CMP ar gyfer y swydd i'r dyfodol.<br><br>Cytunwyd<br>i. nodi'r wybodaeth a diolch i SW am ei adroddiad.<br>ii. mynegi gwerthfawrogiad a diolch i Elfyn Jones am ei waith cyson dros faterion awyr agored yng Nghymru ac am ei ymdrechion diwyd i warchod statws y Gymraeg yn y maes.<br>iii. y dylid pwyso ar y CMP i sicrhau eu bod yn cadw ac yn llenwi swydd Elfyn yn y dyfodol. | |
| **11.** | **<u>Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddwyd gan RG ei fod wedi derbyn ymholiadau gan aelodau ynglŷn â mynychu cwrs cymorth cyntaf. Gellid ystyried cynnal cwrs pellach yn yr haf pe byddai digon o ddiddordeb.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth a diolch i RG am ei waith. | |
| **12.** | **OFFER** | |
| | Adroddodd DAP bod ganddi bellach restr o offer y Clwb sydd yn ei meddiant.<br><br>Codwyd y posibilrwydd bod rhywfaint o helmedau'r Clwb yn cael eu cadw gan Gareth Wyn.<br><br>Cytunwyd<br><br>i. gofyn i EO holi Gareth am hyn ac adrodd yn ôl i DAP.<br>ii. dylid ystyried rhoi'r rhestr ar wefan y Clwb | |
| **13.** | **CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR**<br><br>Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 7.30pm, nos Lun 16eg o Fai 2022 drwy gyfrwng Zoom. | |